



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

# Cynnig hyder i'r cyhoedd:

Adroddiad ar waith rheoleiddio  
proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru  
**2017 i 2018**

## Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru  
South Gate House  
Wood Street  
Caerdydd  
CF10 1EW  
Ffôn: 0300 3033 444  
Minicom: 029 2078 0680  
E-bost: gwybodaeth@gofal  
cymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol  
© 2018 Gofal Cymdeithasol  
Cymru

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

## Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	4
2. Gosod a gwella safonau.....	5
2.1. Y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol...	6
3. Cynnal safonau.....	9
3.1. Asesu priodoldeb ar gyfer cofrestru.....	9
3.2. Cynnal gofynion cofrestru.....	10
4. Cynnal safonau.....	11
4.1. Atgyfeiriadau ynghylch gweithwyr gofal cymdeithasol.....	11
5. Rôl ein paneli.....	16
6. Edrych tua'r dyfodol 2018-19.....	20


# Crynodeb ynghylch cofrestru

Mae'r Gofrestr yn sefydlog ar y cyfan. Roedd y nifer uchaf o bobl gofrestredig newydd yn weithwyr gofal preswyl plant.

**11,570** sef nifer yr unigolion cofrestredig ar y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol ar **31 Mawrth 2018** (11,272 ar 31 Mawrth 2017)

**1,237** (**10.69%**) sef nifer yr unigolion cofrestredig a dynnwyd o'r Gofrestr, **gostyngiad o 239** o gymharu â'r flwyddyn gynt

**99.91%**  
o geisiadau i adnewyddu  
wedi cyrraedd ar-lein



**99.95%**  
o geisiadau i gofrestru  
wedi cyrraedd ar-lein

## Crynodeb ynghylch addasrwydd i ymarfer

**158**

sef nifer yr unigolion cofrestredig y derbynion honiadau amdanynt (1.4% o'r Gofrestr) a wnaeth fwrw amheuaeth ar eu haddasrwydd i ymarfer a pharhau ar y Gofrestr

**1%**

sef y canran o'r holl weithwyr cymdeithasol cofrestredig a atgyfeiriwyd. Mae'r duedd hon yn gostwng o gymharu â blynyddoedd cynt (2% yn 2016-17; 1.7% yn 2015-16; 1.8% yn 2014-15).

**111**

(70%) sef nifer yr atgyfeiriadau yn ymwneud ag unigolion cofrestredig a fu'n destun prosesau disgyblu

**46%**

sef y canran o'r atgyfeiriadau a ddaeth o'r gweithlu gofal preswyl i blant, y nifer uchaf o atgyfeiriadau

## Crynodeb o'r gwrandawiadau

**22**

sef nifer y gwrandawiadau terfynol a gynhaliwyd, gyda **12 person cofrestredig** yn cael eu tynnu o'r Gofrestr (0.1% o'r Gofrestr)

O'r 12 a ymddangosodd gerbron gwrandawriad terfynol ac a dynnwyd o'r Gofrestr:

**6**

**ohonynt yn weithwyr gofal preswyl i blant**

**3**

**ohonynt yn weithwyr cymdeithasol**



**2**

**ohonynt yn rheolwyr cartrefi gofal i oedolion**

**1**

**ohonynt yn rheolwr gofal preswyl i blant**

# 1. Cyflwyniad

Ein diben yw amddiffyn, hyrwyddo a chynnal diogelwch a llesiant y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut rydym yn cynnig hyder i'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol o gymeriad da, yn hyderus ac yn gymwys i ddarparu gofal diogel i drigolion Cymru a chymorth i'w teuluoedd.

Mae cadw Cofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol (y Gofrestr) yn rhan o'r broses hon. Mae'n cynnig cydnabyddiaeth broffesiynol i'r rhai ar y Gofrestr, ynghyd ag adnoddau hyfforddiant a datblygiad. Hefyd, mae'n cynnig sicrwydd cyhoeddus i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, gan y gallant fod yn siŵr bod y gweithiwr cofrestredig wedi cymhwyso'n briodol ac wedi cytuno i fodloni'r safonau proffesiynol a osodwyd gennym ar gyfer y sector.

Mae'r pontio o Gyngor Gofal Cymru i Ofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn ddi-dor o ran ein rôl reoleiddio, wrth i ni gynnal cofrestr sefydlog o weithwyr, dechrau gwireddu buddion ein pwerau cyfreithiol newydd a pharatoi i fwy o weithwyr gofrestru gyda ni.

Mae cyfran fach iawn o unigolion cofrestredig yn ymddangos gerbron gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer terfynol, gan awgrymu bod y mwyafrif yn gweithio yn ôl y safonau ymddygiad ac ymarfer gofynnol yn y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*.

Nod ein proses addasrwydd i ymarfer yw amddiffyn y cyhoedd rhag y bobl hynny nad ydynt yn addas i ymarfer. Os nad yw gweithiwr yn addas i ymarfer, gellir tynnu ei enw oddi ar y Gofrestr, sy'n golygu na fydd yn gallu ymarfer yng Nghymru. Rydym yn cymryd camau priodol i sicrhau bod hyn yn digwydd, fel y mae'r adroddiad hwn yn ei amlygu. Ym mhob achos, ein nod yw dod i'r canlyniad sy'n amddiffyn y cyhoedd orau, ar y cyfle cyntaf.

Gall natur yr atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer sy'n dod i law amrywio o gamddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, gwneud camgymeriadau yn gysylltiedig â meddyginiaeth, a methu asesu, cofnodi neu ymweld â phobl sy'n defnyddio gofal a chymorth. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein hymchwiliadau wedi amlygu pryderon ynghylch gofal preswyl i blant ac, felly, pryderon ynghylch safon a phriodoldeb unigolion sy'n gweithio gyda'n plant mwyaf agored i niwed. Rydym wedi mynd rhagom i rannu'r wybodaeth hon gyda Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a'n cydweithwyr yn ein hadran gwella a datblygu i ddarganfod ffordd well ymlaen.

Mae cynnwys pobl yn ganolog i'n rôl amddiffyn y cyhoedd. Mae ein Bwrdd yn cynnwys aelodau'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a gofalwyr, yn bennaf. Trwy'r Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau, mae ein Bwrdd yn craffu ar ein gwaith i sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella safonau yn y sector gofal cymdeithasol, ac yn darparu gwasanaethau o'r safon uchaf i amddiffyn pobl agored i niwed sy'n dibynnu ar ofal cymdeithasol.

Gwyddom fod angen cefnogi'r gweithlu i'w helpu i ddod yn fwy medrus a sicrhau eu bod yn gallu ymateb i anghenion gofal a chymorth cymhleth. Trwy ddefnyddio tystiolaeth o ymarfer da i osod a chynnal safonau ar gyfer y gweithlu, gallwn ddenu a chadw'r bobl gywir yn y sector a sicrhau bod gennym weithlu sy'n ddigon medrus i fodloni heriau'r dyfodol. Bydd ein hymdrechion ar y cyd mewn partneriaeth yn ein helpu i wireddu ein huchelgais ar gyfer pob unigolyn sydd angen cymorth i allu byw'r bywyd sy'n bwysig iddyn nhw.

## 2. Gosod a gwella safonau

### Y Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a'r Côt Ymarfer i Gyflogwyr Gofal Cymdeithasol

Mae'r Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol (y Côt) yn sylfaen i'n gwaith, gan ddarparu'r safonau y mae'n rhaid i'r gweithlu cofrestredig eu bodloni. Mae'n rhaid i bawb sy'n gwneud cais i gofrestru gyda ni gytuno i'w ddilyn pan fyddant yn cofrestru ac, os darganfyddir eu bod wedi methu bodloni ei safonau, gallent wynebu camau addasrwydd i ymarfer.

Eleni, i sicrhau bod gennym weithlu gofal cymdeithasol medrus a diogel, buom yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu'r Côt Ymarfer i Gyflogwyr Gofal Cymdeithasol (Côt y Cyflogwyr). Ar gael o Ebrill 2018 ymlaen, mae'n gosod safonau a chanllawiau clir ar gyfer cyflogwyr, i sicrhau eu bod yn cefnogi'u gweithwyr. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru'n gorfodi Côt y Cyflogwyr, a gall weithredu os na fydd cyflogwyr yn cydymffurfio.

### Trawsnewid gofal yn yr 21ain ganrif

Yn Ionawr 2018, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod rhaid i weithwyr gofal cartref gofrestru gyda ni erbyn 2020 a'r gweithlu gofal cartref i oedolion erbyn 2022. Bydd hyn yn codi'r niferoedd ar y Gofrestr o 12,000 i 40,000 ychwanegol dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r estyniad hwn i'r Gofrestr yn deillio o ymrwymiad hirdymor gan Lywodraeth Cymru i gefnogi a gwerthfawrogi'r gweithlu gofal cymdeithasol.

I gynorthwyo â'r gwaith o gofrestru'r gweithlu gofal cartref, buom yn gweithio gyda'r sector i gael eu barn am lefel y ffioedd, y gofynion cymhwyso a Chôt y Cyflogwyr. Rydym wedi bod yn paratoi ymatebion ar-lein i gwestiynau cyffredin am ffioedd, cymwysterau ac amserlenni er mwyn helpu gweithwyr a chyflogwyr â'r broses. Hefyd, rydym wedi paratoi ffilmiau byr yn cynnwys gweithwyr, pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'u gofalwyr, sy'n rhannu pam mae gofal cartref mor hanfodol a pham mae'n bwysig cofrestru, proffesiynoli a chodi statws y gweithlu.

### Canllawiau ymarfer a chanllawiau esboniadol

Mae canllawiau ymarfer wedi'u cyhoeddi ar gyfer pob rôl gofrestredig:

- Y Gweithiwr Gofal Preswyl Plant
- Y Gweithiwr Cymdeithasol
- Y Rheolwr Gofal Cymdeithasol.

Cyhoeddodd yr arweiniad esboniadol cyntaf ar y Ddyletswydd i roi gwybod am Anffurfio Organau Rhywiol Merched yn 2016 a Gweithredu mewn ffordd agored a gonest pan fydd pethau yn mynd o le: gonestrwydd a dyletswydd broffesiynol yn 2017. Hefyd, buom yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu Y Gweithiwr Gofal Cartref, a oedd ar gael ym mis Ebrill 2018, i gefnogi agor y Gofrestr i'r grŵp hwn o weithwyr.

Bwriedir i'n canllawiau fod yn adnodd ymarferol sy'n cynorthwyo gweithwyr gofal cymdeithasol â'u hymarfer ac sy'n cyfrannu at ddeilliannau da ar gyfer unigolion. Hefyd, gallent gael eu defnyddio i amlygu methiant posibl â chynnal y safonau yn y Côt. Mae'r holl ganllawiau ar gael i unigolion cofrestredig ar-lein a thrwy GCCarlein.

### Datblygu a gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Cyflwynom gyfres newydd o reolau cofrestru, addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau ym mis Ebrill 2017. Gwnaed hyn i adlewyrchu gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a lansio Gofal Cymdeithasol Cymru.

Yn hydref 2017, gwnaethom ddatblygu ac ymgynghori ar gyfres newydd arall o reolau ar gyfer ein timau cofrestru, addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau; daeth y rheolau hyn i rym ym mis Ebrill 2018. Gwnaethom hyn yn barod ar gyfer ymestyn y Gofrestr i weithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion.

### Protocolau rhannu gwybodaeth

Diweddarom ein memorandwm dealltwriaeth a'n protocol rhannu gwybodaeth gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a pharhaom weithio ar drefniadau rhannu gwybodaeth gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, yr heddlu ac ACRO (y Sefydliad Cofnodion Troseddol Cenedlaethol). Mae'r cytundebau hyn yn ein cynorthwyo â'n hymchwiliadau addasrwydd i ymarfer ac yn ein galluogi ni i gyflawni ein hamcanion rhannu gwybodaeth eraill sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.


## 2.1. Y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol

Mae cofrestru yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol a chodi statws gweithwyr. Mae'n rhoi sicrwydd i bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'u teuluoedd, bod y gweithwyr yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau y mae arnynt eu hangen i wneud eu gwaith mewn ffordd broffesiynol, dosturiol.

Ar hyn o bryd, mae Cofrestru yn orfodol yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol (o 2004), gweithwyr cymdeithasol (o 2005), rheolwyr a gweithwyr gofal preswyl i blant (o 2007 a 2008), rheolwyr cartrefi gofal i oedolion (o 2011) a rheolwyr gofal cartref (o 2013).

Bydd y Gofrestr yn agor i weithwyr gofal cartref ym mis Ebrill 2018. Bydd cofrestru yn wirfoddol am ddwy flynedd ac yn orfodol i bob gweithiwr gofal cartref sy'n ymarfer yng Nghymru o fis Ebrill 2020 ymlaen. Roedd 11,570 o unigolion cofrestredig ar y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol (y Gofrestr) ar 31 Mawrth 2018 (11,272 ar 31 Mawrth 2017).

Mae'r nifer ar y Gofrestr wedi cynyddu ychydig dros y flwyddyn ddiwethaf. Y prif reswm dros hyn yw nifer y gweithwyr gofal preswyl i blant newydd sy'n dod i'w swydd. Ers mis Mawrth 2016, rydym wedi



gweld cynnydd blynyddol yn nifer y gweithwyr gofal preswyl i blant ar y Gofrestr. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r Gofrestr yn sefydlog, gydag amrywiadau bychain yn unig yn y grwpiau cofrestredig eraill.

Mae cynnydd parhaus yn nifer y rheolwyr gofal cartref a'r rheolwyr gofal preswyl i blant, gyda mwyafrif y rhain yn gweithio yn y sector preifat. Mae nifer y rheolwyr gofal cartref yn tueddu i fod yn fwy na nifer y gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru, gan ddangos bod nifer o ddirprwyon wedi cofrestru, o bosibl, i hyrwyddo darpariaeth gynaliadwy, ond mae nifer llai o reolwyr cofrestredig mewn gofal oedolion na gwasanaethau. Mae hyn yn awgrymu bod rheolwyr yn rheoli mwy nag un gwasanaeth ac, o bosibl, bod swyddi gwag i'w llenwi.

Cewch ddadansoddiad, ffigurau a thueddiadau llawn ar gyfer pob grŵp cofrestredig ar ein gwefan.

Tabl 1: Nifer y bobl ar y Gofrestr ar 31 Mawrth, mewn rolau cofrestru gorfodol

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2018	Newid ers 31 Mawrth 2017	% o'r Gofrestr orfodol
Rheolwyr cartrefi gofal i oedolion	1,265	1,243	1,253	1,234	1,213	-21	10%
Rheolwyr gofal cartref	533	610	611	628	643	15	6%
Rheolwyr gofal preswyl i blant	179	174	185	189	206	17	2%
Gweithwyr gofal preswyl i blant	2,222	2,142	2,186	2,436	2,676	240	23%
Gweithwyr cymdeithasol	5,987	5,967	6,030	6,050	6,138	88	53%
Myfyrwyr gwaith cymdeithasol	761	733	731	735	694	-41	6%
Cyfanswm	10,947	10,869	10,996	11,272	11,570	298	100%

## Ceisiadau gan weithwyr cymdeithasol a gymhwysodd y tu allan i'r Deyrnas Unedig

Tabl 2: Ymholiadau a cheisiadau 2015-16 i 2017-18

Canlyniad y cais	Cyfanswm 2015-16	Cyfanswm 2016-17	Cyfanswm 2017-18
Ymholiad yn unig	7	27	33
Cais anghyflawn wedi'i ddileu	5	12	13
Wedi trosglwyddo o gyngor arall yn y DU	4	8	4
Wedi gwneud cais, yn aros am wybodaeth	11	7	4
Diffyg, angen mesurau gwneud iawn	3	1	2
Wedi cofrestru	16	19	11
Wedi cofrestru, gan fod mesurau gwneud iawn wedi'u cwblhau	0	1	0

Fe wnaeth nifer y ceisiadau o'r tu allan i'r DU ostwng am y tro cyntaf yn 2017-18. Er y bu cynnydd yn nifer yr ymholiadau a gawsom, mae nifer y ceisiadau wedi gostwng gan fod rhaid i unigolion gadarnhau eu bod yn bwriadu ymarfer yng Nghymru cyn y gallwn eu cofrestru erbyn hyn. Gynt, roedd unrhyw un yn gallu gwneud cais, hyd yn oed os oeddent yn bwriadu ymarfer rywle arall yn y DU. Ond ers cyflwyno Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ni chaniateir hyn mwyach.

### GCCarlein

Mae ein porth ar-lein, GCCarlein, wedi'i uwchraddio yn barod ar gyfer agor y Gofrestr i weithwyr gofal cartref. Cafodd y system ei datblygu a'i phrofi rhwng haf 2017 a mis Mawrth 2018, gan ddod yn weithredol ym mis Ebrill 2018.

Mae'r system newydd yn galluogi ymgeiswyr, unigolion cofrestredig a chyflogwyr i reoli eu holl swyddogaethau cofrestru ar-lein. Mae'r system yn ddiogel ac ar gael 24 awr y dydd, ar nifer o ddyfeisiadau. I gefnogi defnyddwyr presennol a defnyddwyr newydd y safle, rydym wedi trefnu digwyddiadau wyneb yn wyneb, ynghyd â fideos a chanllawiau defnyddio cam wrth gam, a fydd yn cael eu dosbarthu'n fuan flwyddyn nesaf.

Hyd yn hyn, daw mwyafrif y ffurflenni cais a'r ffurflenni adnewyddu atom drwy GCCarlein, ac mae mwyafrif o gyflogwyr yn defnyddio'r system hefyd.



Cyfanswm a gymhwysodd yn yr UE

2015-16 **24**

2016-17 **22**

2017-18 **16**

Cyfanswm a gymhwysodd y tu allan i'r UE

2015-16 **22**

2016-17 **53**

2017-18 **51**

Cyfanswm llwyr fesul blwyddyn

2015-16 **64**

2016-17 **75**

2017-18 **67**



Tabl 3: Nifer y ceisiadau a gafwyd ar-lein

Ceisiadau	2014-15		2015-16		2016-17		2017-18	
	Ar-lein	% Ar-lein	Ar-lein	% Ar-lein	Ar-lein	% Ar-lein	Ar-lein	% Ar-lein
Rheolwr cartref gofal i oedolion	165	86%	198	100%	189	100%	265	100%
Gweithiwr cartref gofal i oedolion	33	89%	70	96%	54	100%	0	0
Rheolwr gofal cartref	108	89%	106	100%	128	100%	155	100%
Gweithiwr gofal cartref	43	84%	38	100%	21	100%	0	0
Rheolwr gofal preswyl i blant	8	100%	17	100%	12	100%	15	100%
Gweithiwr gofal preswyl i blant	481	89%	614	100%	846	100%	837	100%
Gweithiwr cymdeithasol	440	98%	491	99.6%	474	100%	514	99.8%
Myfyriwr gwaith cymdeithasol	313	100%	308	100%	307	100%	294	100%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,591</b>	<b>93%</b>	<b>1,842</b>	<b>99.7%</b>	<b>2,031</b>	<b>100%</b>	<b>2,080</b>	<b>99.5%</b>

Rhwng 2014-15 a 2016-17, gallai gweithwyr gofal cartref a gweithwyr cartrefi gofal i oedolion gofrestru'n wirfoddol. Daeth cofrestru gwirfoddol ar gyfer y grwpiau hyn i ben ar 31 Mawrth 2017, yn barod iddynt ailymgeisio o dan y rheoliadau newydd o fis Ebrill 2018 ymlaen.

Tabl 4: Nifer y ceisiadau i adnewyddu a gafwyd ar-lein gan rôl gofrestrdig

Adnewyddu	2014-15		2015-16		2016-17		2017-18	
	Ar-lein	% Ar-lein	Ar-lein	% Ar-lein	Ar-lein	% Ar-lein	Ar-lein	% Ar-lein
Rheolwr cartref gofal i oedolion	430	86%	145	98%	298	100%	374	100%
Gweithiwr cartref gofal i oedolion	34	44%	18	53%	7	87.5%	0	0
Rheolwr gofal cartref	43	98%	157	98%	152	100%	97	100%
Gweithiwr gofal cartref	66	45%	88	82%	17	89.5	0	0
Rheolwr gofal preswyl i blant	49	96%	20	95%	74	100%	47	100%
Gweithiwr gofal preswyl i blant	405	84%	246	97%	461	100%	433	100%
Gweithiwr cymdeithasol	1,075	89%	1,191	100%	2,529	99.8%	1,251	99.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,102</b>	<b>84%</b>	<b>1,865</b>	<b>97%</b>	<b>3,538</b>	<b>99.8%</b>	<b>2,202</b>	<b>99.91%</b>

Er bod bron pob un o'r ceisiadau a cheisiadau i adnewyddu yn ein cyrraedd ar-lein, bydd nifer bach o geisiadau bob amser yn cael eu gwneud ar bapur am resymau hygyrchedd, felly mae ceisiadau ar bapur ar gael ar gais.



# 3. Cynnal safonau

## 3.1. Asesu priodoldeb ar gyfer cofrestru

Mae'r broses gofrestru'n cynnwys asesiad gofalus o'r dystiolaeth a ddarperir i sicrhau bod ymgeiswyr ac unigolion cofrestredig yn bodloni'r meini prawf cofrestru. Eleni, cyflwynom broses cynadleddau achos i wneud penderfyniadau cofrestru ac mae hon wedi disodli'r pwyllgorau cofrestru.

Mae'r math o achos y gall cynhadledd achos cofrestru ei ystyried yn cynnwys:

- diffyg mewn hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru
- methu cwblhau cymhwyster
- methu cwblhau Rhaglen Gadarnhau Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus
- dychwelyd i ymarfer
- argymhelliad tîm addasrwydd i ymarfer i wrthod cofrestru

Eleni, cynhaliom 11 cynhadledd achos cofrestru. Roedd pedair o'r rhain yn seiliedig ar argymhelliad tîm addasrwydd i ymarfer i wrthod cofrestru, pedair oherwydd methwyd cwblhau cymhwyster cyn y dyddiad adnewyddu a thair oherwydd diffyg mewn hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru. Mewn naw o'r achosion hyn, caniatawyd cofrestru/adnewyddu a gwrthodwyd y ddwy arall.

## Datganiadau

Wrth wneud cais am gofrestru a chais i barhau'n gofrestredig, rhaid i unigolion ddatgan eu bod o gymeriad da, ynghyd â datgan unrhyw gyflyrau iechyd a allai effeithio ar eu gallu i weithio.


Rydym yn ymdrin â datganiadau iechyd fel materion priodoldeb, yn hytrach na materion addasrwydd i ymarfer, a byddwn yn ystyried p'un ai a yw'r cyflwr iechyd yn effeithio ar allu'r unigolyn i gyflawni ei waith a'i briodoldeb i fod ar y Gofrestr.

Rhaid i unigolion cofrestredig ddatgan unrhyw newidiadau i'w hiechyd, eu cymeriad a/neu eu hymddygiad. Hefyd, rhaid i gyflogwr gofal cymdeithasol (neu gyfwerth) presennol neu ddiweddaraf yr ymgeisydd/person cofrestredig roi cadarnhad o gymeriad da ar eu cyfer.

Eleni, rhoddodd ymgeiswyr ac unigolion cofrestredig 79 o ddatganiadau a wnaeth fodloni ein meini prawf ar gyfer ymchwilio ymhellach iddynt.

## Natur y datganiadau a wnaed

Pan benderfynwn beidio â chytuno i gais i gofrestru, byddwn yn atgyfeirio'r cais a'i dystiolaeth ategol i gynhadledd achos cofrestru.



### 3.2. Cynnal gofynion cofrestru

Caiff unigolion cofrestredig sy'n methu adnewyddu eu cofrestriad, neu sy'n cyflwyno cais anghyflawn i adnewyddu eu cofrestriad erbyn eu dyddiad adnewyddu, eu tynnu o'r Gofrestr gan ein swyddogion. Os bydd ein swyddogion yn dewis caniatáu adnewyddiad gydag argymhelliad, neu ddileu person cofrestredig, caiff yr achos ei atgyfeirio i gynhadledd achos cofrestru i'w ystyried.

**Tabl 6: Dileu o'r Gofrestr fesul blwyddyn**

Cafodd cyfanswm o 1,237 o unigolion cofrestredig eu dileu o'r Gofrestr eleni. Dilëwyd y mwyafrif ohonynt gan eu bod wedi methu adnewyddu eu cofrestriad neu gofynnont am gael eu dileu'n wirfoddol.

	Dyledwr	Methu adnewyddu	Dileu'n wirfoddol	Dileu myfyriwr	Dileu gan Bwyllgor Ymddygiad/lechyd	Cyfanswm nifer ar y Gofrestr fesul blwyddyn
2013-14	204	326	580	53	9	11,864
%	1.70%	2.70%	4.90%	0.40%	0.10%	
2014-15	353	527	617	61	11	11,544
%	3.10%	4.60%	5.30%	0.50%	0.10%	
2015-16	513	351	398	41	12	11,564
%	4.40%	3.00%	3.40%	0.40%	0.10%	
2016-17	477	390	564	29	16	11,272
%	4.20%	3.50%	5.00%	0.30%	0.10%	
2017-18	156	566	458	41	16	11,570
%	1.35%	4.89%	3.96%	0.35%	0.14%	

### Cyfanswm wedi'u dileu

2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
<b>1,172</b>	<b>1,569</b>	<b>1,315</b>	<b>1,476</b>	<b>1,237</b>
9.90%	13.60%	11.40%	13.10%	10.69%



## 4. Cynnal safonau

### 4.1. Atgyfeiriadau ynghylch gweithwyr gofal cymdeithasol

Ffocws ein hymchwiliadau yw p'un ai a yw person cofrestredig yn addas i ymarfer ar hyn o bryd ac, os nad yw'n cyrraedd y safonau disgwylidig, sut gellir cynorthwyo'r unigolyn i fod yn gymwys unwaith eto. Gallai gwneud yn iawn am arfer gwael gynnwys dangos dealltwriaeth o weithredoedd yn y gorffennol, cwblhau hyfforddiant neu ddysgu myfyriol priodol yn llwyddiannus, a chyfaddef y methiannau yn eu hymarfer. Ni ellir unioni pob ymddygiad – mae anonestrwydd, ymddygiad bwriadol a rhai euogfarnau troseddol yn enghreifftiau o gamymddygiad na ellir eu hunioni.

#### Ffynhonnell atgyfeiriadau

Cawsom atgyfeiriadau o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys:

- cyflogwyr presennol a chyn-gyflogwyr ynghylch materion a fu'n destun eu prosesau disgyblu
- yr heddlu
- sefydliadau addysg uwch
- datganiadau personol a wnaed gan unigolion cofrestredig
- cwynion gan aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a gofalwyr.

Daeth mwyafrif helaeth yr atgyfeiriadau a gawsom gan gyflogwyr presennol a chyn-gyflogwyr; fel arfer, roeddent yn gysylltiedig â chamau disgybl a gymerwyd yn y gweithle.

cynhaliom  
ymchwiliadau i

# 158

o unigolion  
cofrestredig

# 1.4%

o'r gweithwyr  
sydd wedi  
cofrestru gyda ni



# 138

o achosion yn cael  
ei ymchwilio ar  
31 Mawrth 2018

# 17

achos ar agor  
dros gyfnod o  
18 mis

Tabl 7: Ffynhonnell atgyfeiriadau – cyffredinol

	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
Cyflogwr presennol	88	121	93	121	135	142	100
Cyn-gyflogwr	14	34	17	15	5	17	22
Yr heddlu	5	11	5	1	2	1	1
Datganiad personol	48	43	39	48	28	27	16
Arall	2	21	15	7	3	4	2
Aelod o'r cyhoedd	30	44	14	6	4	5	4
Sefydliad addysg uwch	7	8	4	5	9	19	11
Rheoleiddwyr eraill	0	0	0	7	7	9	2
Cyfanswm	194	282	187	210	193	224	158

Bu gostyngiad o 30 y cant yn nifer yr atgyfeiriadau a gafwyd eleni o gymharu â'r llynedd. Ymddengys mai yn nifer yr atgyfeiriadau gan gyflogwyr y mae'r gostyngiad hwn, er bod canran yr atgyfeiriadau gan gyflogwyr (63 y cant) fel yr oedd y llynedd.

Mae'r gostyngiad hwn yn lefel yr atgyfeiriadau yn awgrymu bod angen i ni wneud rhagor o waith i edrych ar y rhesymau dros y gostyngiad hwn, a allai fod oherwydd bod cyflogwyr yn delio'n briodol â mwy o faterion. Neu, os nad yw atgyfeiriadau'n cael eu gwneud fel y dylent, mae angen i ni wneud mwy o waith gyda chyflogwyr i esbonio ein proses addasrwydd i ymarfer.

Fel y llynedd, cawsom un atgyfeiriad yn unig gan yr heddlu a gwnaethom ymchwilio iddo drwy ein proses addasrwydd i ymarfer. Mae nifer yr atgyfeiriadau gan yr heddlu wedi gostwng yn sylweddol o dan Gynllun Datgelu o dan Gyfraith Gyffredin yr Heddlu.



### Natur yr atgyfeiriadau

Tabl 8: Natur yr atgyfeiriadau

	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
Euogfarnau / Rhybuddiadau	20	29	15	18	15	13	10
Camau disgyblu	116	182	117	136	148	151	111
Cwynion	33	53	40	50	4	0	3
Datgeliadau personol am gyflyrau iechyd	18	18	15	6	6	6	5
Priodoldeb	n/a	n/a	n/a	n/a	10	23	9
Rheoleiddiwr arall	n/a	n/a	n/a	n/a	9	6	1
Arall – diogelu	n/a	n/a	n/a	n/a	1	25	19

Fel yn y blynyddoedd diwethaf, roedd y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau a gawsom (70 y cant) yn ymwneud ag unigolion cofrestredig a fu'n destun gweithdrefn ddisgyblu cyflogwr.

Gall natur yr atgyfeiriadau a gawn amrywio o lèn-ladrad (mewn perthynas â myfyrwyr gwaith cymdeithasol, fel arfer) i honiadau mwy difrifol o gam-drin rhywiol. Fe wnaeth yr atgyfeiriadau a gawsom hefyd gynnwys achosion yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol, gwneud camgymeriadau yn gysylltiedig â meddyginiaeth, a methu asesu, cofnodi neu ymweld â phobl sy'n defnyddio gofal a chymorth.

Mae ein hymchwiliadau dros y flwyddyn ddiwethaf wedi amlygu pryderon ym maes gofal preswyl plant, a safon a phriodoldeb unigolion sy'n gweithio gyda'r plant mwyaf agored i niwed. Dywed ein tystiolaeth wrthym fod mwyafrif yr atgyfeiriadau ynghylch gweithwyr gofal preswyl i blant yn ymwneud â'r canlynol:

- iaith amhriodol tuag at, neu yng ngŵydd, plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chymorth
- dulliau atal
- camgymeriadau yn gysylltiedig â meddyginiaeth
- gadael pobl ifanc heb oruchwyliaeth ac mewn perygl o niwed
- meithrin perthnasoedd amhriodol (a chamdriniol, weithiau) gyda phlant a phobl ifanc.

Mae hyn yn bryder o'i ystyried ar y cyd â gwybodaeth o'r Gofrestr, gan ein bod wedi gweld gostyngiad er 2014 yn nifer y gweithwyr gofal preswyl plant â chymhwyster cydnabyddedig, gyda 53 y cant yn unig o'r gweithlu cofrestredig yn meddu ar gymhwyster cydnabyddedig yn 2017. Hefyd, mae lefel uchel o drosiant ymhlith staff, sy'n effeithio ar y nifer sy'n ymgymryd â'r cymwysterau gofynnol neu'n eu cwblhau er mwyn adnewyddu eu cofrestriad wedi tair blynedd. Yn gyffredinol, gwelwn drosiant o oddeutu 20 y cant ymhlith gweithwyr gofal preswyl i blant bob blwyddyn ac mae hyn wedi bod yn gyson er 2014.


Mae ymchwil yn dangos bod perthynas sefydlog ag oedolion yn arwain at wydnwch a deilliannau gwell i blant. Hefyd, gwyddom fod plant sy'n byw i ffwrdd

o'u teuluoedd yn debygol o fod wedi profi trawma neu gamdriniaeth. Mae ein hystadegau wedi arwain at bryderon cynyddol am sefydlogrwydd y gweithlu a pha mor gymwys ydynt i gefnogi'r grŵp hwn o blant.

Lle byddwn yn gweld patrymau o arfer gwael neu bryderon, byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a'n cydweithwyr yn yr adran Gwella a Datblygu. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Grŵp Cyngori'r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru ar wella deilliannau i blant sy'n derbyn gofal ac rydym wedi hysbysu partneriaid am y tueddiadau siomedig hyn. Mae'r arolygiaeth wedi adeiladu ar ein gwybodaeth gydag adolygiad thematig o ofal preswyl i blant a bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn 2018-19.

Mae angen i ni wneud mwy o waith i ddeall pam mae cymaint o weithwyr yn dewis peidio ag aros yn eu rôl. Yna, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i geisio codi statws y proffesiwn gofal cymdeithasol, gan anelu at wella cyfleoedd gyrfael er mwyn denu rhagor o weithwyr at y grŵp hwn a'u cadw.

I fwrw ymlaen â hyn, rydym yn ymgysylltu â darparwyr, gweithwyr a rheolwyr gofal preswyl i blant i'n helpu i ddatblygu ein gweithgareddau gwella targedig gyda'r sector. Hefyd, bydd y wybodaeth hon yn cyfrannu at yr adolygiad o'n canllawiau ymarfer, a fydd yn digwydd yn 2018-19. Er enghraifft, mae camddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn dod yn fwyfwy cyffredin mewn achosion o dorri ffiniau proffesiynol ac, felly, byddwn yn cryfhau ein harweiniad yn hyn o beth i helpu gweithwyr i osgoi'r sefyllfaoedd hyn.



## Rolau unigolion cofrestredig sydd wedi'u hatgyfeirio i ni

Tabl 9: Rolau unigolion cofrestredig sydd wedi'u hatgyfeirio i ni

	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	% o bob grŵp cofrestredig (2017-18)	% o'r Gofrestr (2017-18)
Gweithiwr cymdeithasol	95	117	66	64	48	58	39	0.96%	0.51%
Rheolwr cartref gofal i oedolion	5	28	22	30	27	31	25	2.51%	0.28%
Gweithiwr cartref gofal i oedolion	2	10	5	0	2	1	0	n/a	0.01%
Rheolwr gofal preswyl i blant	5	10	5	5	8	5	6	2.65%	0.04%
Gweithiwr gofal preswyl i blant	66	89	60	93	85	101	72	4.15%	0.90%
Rheolwr gofal cartref	1	3	4	6	8	4	6	0.64%	0.04%
Gweithiwr gofal cartref	5	10	11	3	3	4	0	n/a	0.04%
Myfyrwr gwaith cymdeithasol	13	15	14	9	12	20	10	2.72%	0.18%

Eleni, fe wnaeth nifer y gweithwyr cymdeithasol a'r gweithwyr gofal preswyl i blant a gafodd eu hatgyfeirio atom ni ostwng o gymharu â 2016-17. Ond, nid oes rheswm amlwg dros y newid hwn.

Hefyd, bu gostyngiad o 50 y cant yn nifer y myfyrwr gwaith cymdeithasol a atgyfeiriwyd. Mae'n bosibl mai'r rheswm dros hyn yw ein bod, yn 2016-17, wedi cael llawer o atgyfeiriadau ynghylch mân broblemau

fel cyfeirio anghywir. Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â phrifysgolion sy'n cynnig cyrsiau gradd a gradd meistr mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru ac rydym yn trafod cwestiynau am briodoldeb atgyfeiriadau yn y fforwm hwnnw. Mae'n debygol mai hyn sy'n cyfrif am y gyfradd is o atgyfeiriadau gan fod prifysgolion yn dwyn materion mwy perthnasol i'n sylw ac yn ymdrin â materion eraill eu hunain neu yn ystod lleoliadau ymarfer.

# Canlyniad atgyfeiriadau

Yn 2017-18, caeom **153** o achosion, yn cynnwys achosion a atgyfeiriwyd i ni cyn Ebrill 2017.

Caeodd ein swyddogion **120** o achosion mewn cynhadledd achos fewnol ac roedd **66** o'r rhain yn achosion hŷn.

Caeom **55** o'r **158** atgyfeiriad a gawsom yn 2017-18. Caeodd ein swyddogion **54** ohonynt mewn cynhadledd achos fewnol yn dilyn ymchwiliad. O'r rhain, caewyd **35** o'r achosion ac atgoffwyd yr unigolion cofrestredig cysylltiedig am y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*.

Trwy gydol y flwyddyn, rhoesom wybod i'n Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau am sampl ar hap o'r achosion hyn a gaewyd, gan roi'r rhesymau dros eu cau er mwyn sicrhau ein bod wedi cynnal y trothwyon yn briodol a'n bod wedi cael cymeradwyaeth y Pwyllgor.

Cynhaliwyd **24** gwrandawriad terfynol yn 2017-18, **23** ohonynt o dan Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Addasrwydd i Ymarfer) 2014 (a atgyfeiriwyd cyn 1 Ebrill 2017) ac **1** o dan reolau 2017.



## Rhybuddion

Gellir rhoi rhybuddion i unigolion cofrestredig pan fydd eu hymddygiad neu eu hymarfer tua gwaelod y sbectrwm difrifoldeb neu pan fydd mewnwelediad ac edifeirwch sylweddol. Gall rhybuddion o rhwng chwe mis a thair blynedd gael eu rhoi ar gofrestrriad gweithiwr a bydd y rheswm dros hyn yn cael ei roi ar y gofrestr gyhoeddus. Gall gweithwyr cofrestredig ofyn am wrandawriad llafar gyda phanel os na fyddant yn derbyn y rhybudd. Hefyd, mae cyfnod dwy flynedd pan allwn adolygu'r rhybudd. Yn 2017-18, cyhoeddodd saith rhybudd i unigolion cofrestredig ac ni chawsom unrhyw geisiadau am wrandawriadau llafar.

## Ymgymeriadau

Mae ymgymeriad yn gytundeb rhyngom ni â'r person cofrestredig ynghylch ei arferion gweithio. Mae'n caniatáu i berson cofrestredig barhau i weithio ac mae'r person cofrestredig a'n swyddogion addasrwydd i ymarfer yn cytuno ar yr ymgymeriad heb atgyfeirio i banel. Gall ymgymeriadau gynnwys hyfforddiant, ymarfer myfyriol neu gytundeb i gwblhau cam gweithredu penodol.

Fel arfer, mae angen cwblhau ymgymeriadau o fewn amserlen benodol a rhaid i'r person cofrestredig ddarparu tystiolaeth ei fod wedi cydymffurfio â'r ymgymeriad. Os na fydd yn cydymffurfio, caiff ei achos ei atgyfeirio i wrandawriad a bydd cyhuddiad ychwanegol o fethu â chydymffurfio i'w ystyried. Eleni, derbyniodd unigolion cofrestredig ddau gynnig ymgymeriad – derbyniwyd un gan weithiwr cymdeithasol a'r llall gan reolwr cartref gofal i oedolion.

## Dileu drwy gytundeb

Mae dileu drwy gytundeb yn caniatáu i unigolion cofrestredig wneud cais i gael eu dileu o'r Gofrestr heb gael eu hatgyfeirio i banel. Fel rhan o'r broses hon, maent yn cyfaddef yr honiadau a ffeithiau'r achos mewn datganiad o ffeithiau cytûn. Os caniateir cais i ddileu drwy gytundeb, ni fydd y person cofrestredig yn gallu gwneud cais i adfer ei enw i'r Gofrestr am bum mlynedd. Rydym yn cyhoeddi canlyniad dileu o dan y broses hon ar ein gwefan. Dilëwyd pedwar drwy gytundeb yn 2017-18 – un ar gyfer rheolwr cartref gofal i oedolion a'r tri arall ar gyfer gweithwyr cymdeithasol.



# 5. Rôl ein paneli

## Aelodau panel

Bydd aelodau panel sy'n clywed gwrandawriadau yn penderfynu p'un ai a yw person cofrestredig yn addas i ymarfer, mewn ffordd deg ac agored, i amddiffyn hyder y cyhoedd. Mae gennym aelodau amrywiol o bob cwr o Gymru, y mae llawer ohonynt yn gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gennym 35 aelod lleig ac 20 aelod gofal cymdeithasol.

Daw ein haelodau lleig o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys adnoddau dynol, busnes, y gyfraith, ffermio, undebau llafur, y trydydd sector, llywodraeth leol, addysg ac ymchwil. Nid oes gan aelodau lleig gefndir na phrofiad o weithio ym maes gofal cymdeithasol, ond mae'n bosibl bod ganddynt brofiad o ddefnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.

Mae'r rhan fwyaf o'n haelodau gofal cymdeithasol naill ai wedi cofrestru gyda ni neu maent yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol ar hyn o bryd, neu maent yn unigolion sydd â phrofiad helaeth yn y maes ond nid ydynt wedi cofrestru gyda ni nac yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol ar hyn o bryd. Mae gennym weithwyr cymdeithasol gyda chefnidir mewn iechyd meddwl, gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant; unigolion â phrofiad o ofal cartref, diogelu ac addysgu ymarfer gweithwyr cymdeithasol; ac eraill â chefnidir proffesiynol, fel nysio, a rheoli ac arolygu cartrefi gofal.

## Pwyllgorau Ymchwilio / Paneli Gorchmynion Interim

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio yn ôl mwy nag un gyfres o reolau ar gyfer ein prosesau addasrwydd i ymarfer (2014 a 2017). Mae hyn yn golygu bod gennym y pwyllgorau neu'r paneli canlynol sy'n ystyried honiadau o amhariad ar addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys ystyried p'un ai a ddylid atal rhywun o'r Gofrestr dros dro ai peidio tra byddwn yn ymchwilio i honiadau.

Mae gennym:

- Bwyllgor Ymchwilio (Rheolau 2014) – sy'n gallu atal person cofrestredig dros dro neu osod amodau arno tra byddwn yn ymchwilio i'r honiadau. Hefyd, gall

y Pwyllgor atgyfeirio achos yn ffurfiol i wrandawriad terfynol (Pwyllgor Ymddygiad a Phwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, gweler isod)

- Panel Gorchmynion Interim (Rheolau 2017) – fel uchod, gall y Panel hwn atal person cofrestredig dros dro neu osod amodau arno tra byddwn yn ymchwilio i'r honiadau.

Eleni, ystyriwyd 48 achos – ystyriwyd 38 achos gan y Pwyllgor Ymchwilio (Rheolau 2014) ac ystyriwyd 10 achos gan y Panel Gorchmynion Interim (Rheolau 2017).

**Caewyd 8** heb unrhyw gamau pellach a/neu cyhoeddwyd nodyn atgoffa ysgrifenedig

**Gosodwyd 15** gorchymyn atal dros dro interim

**Ni osodwyd gorchymyn atal dros dro interim ar gyfer 1** achos

**Ni chafodd 1** ei atal dros dro, ond gosodwyd amodau yn hytrach

**Parhawyd â 12** gorchymyn atal dros dro interim (mewn gwrandawriad adolygu)

**Dirymwyd 5** gorchymyn atal dros dro interim (mewn gwrandawriad adolygu)

**Newidiwyd 1** gorchymyn atal dros dro interim yn amodau (mewn gwrandawriad adolygu)

**Atgyfeiriwyd 19** achos i wrandawriad terfynol Pwyllgor/Panel Addasrwydd i Ymarfer.

## Gorchmynion Interim

Caiff Gorchmynion Interim eu gosod heb ragfarn ar ôl asesu'r risg bosibl i iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd, y person cofrestredig neu i'r budd ehangach i'r cyhoedd pe bai'r person yn parhau i weithio mewn rôl gofrestrdig wrth i'r ymchwiliad i honiad gael ei gynnal. Mae Pwyllgorau Ymchwilio neu Baneli Gorchmynion Interim yn ystyried p'un ai i atal gweithiwr dros dro neu osod amodau ar ei gofrestrdig tra bydd ymchwiliadau'n cael eu cynnal. Mae'r Pwyllgor Ymchwilio (o dan Reolau 2014) hefyd yn ystyried p'un ai a ddylid cyfeirio'r mater i wrandawriad terfynol.

Mae dau fath o Orchymyn Interim:

- Gorchymyn Atal Dros Dro Interim (ISO) – gellir ei osod am hyd at ddwy flynedd. Mae'n atal cofrestrdig person cofrestredig am gyfnod penodol, sy'n golygu na all weithio mewn rôl gofrestrdig tra bydd wedi'i atal dros dro. Bydd y gwaharddiad dros dro'n cael ei adolygu a gall y person cofrestredig apelio yn erbyn y penderfyniad hwn drwy wneud cais i'r Tribiwnlys Safonau Gofal.
- Gorchymyn Amodau Ymarfer Interim (ICPO) neu, o dan Reolau 2017, Gorchymyn Cofrestru Amodol Interim – mae hyn yn caniatáu i berson cofrestredig barhau i weithio yn ei rôl gofrestrdig gydag amodau. Bydd yn rhaid i'r unigolyn ddangos tystiolaeth i ni o fodloni'r amodau. Caiff yr amodau eu hadolygu a gall yr unigolyn apelio yn erbyn y penderfyniad drwy wneud cais i'r Tribiwnlys Safonau Gofal.

Eleni, atgyfeiriwyd 17 achos i Bwyllgor neu Banel, gydag argymhelliad i osod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim. O'r rhain, penderfynwyd peidio â gosod Gorchymyn Atal Dros Dro Interim ar un person cofrestredig, gosodwyd amodau ar ddau berson cofrestredig a chafodd bump Gorchymyn Atal Dros

Dro Interim eu dirymu mewn gwrandawriad adolygu. Y prif reswm dros ddirymu Gorchmynion Atal Dros Dro Interim mewn gwrandawriad adolygu yw bod gwybodaeth newydd yn dod i rym sy'n gostwng y risg bosibl ac, felly, yr angen am atal dros dro.

Y mathau o ymddygiad a ddenodd orchmynion atal dros dro oedd:

- honiadau o bryderon difrifol ynghylch y rheolaeth ar gartrefi gofal, gan gynnwys honiadau o esgeuluso a bwlio
- iaith amhriodol tuag at, neu yng ngŵydd, pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a'u teuluoedd
- materion diogelu – fel gadael pobl ifanc heb oruchwyliaeth ac mewn perygl o niwed.

## Gwrandawriadau terfynol

Atgyfeiriwyd 26 achos i wrandawriad terfynol eleni, dim ond 22 a gynhaliwyd, yn debyg i'r llynedd, sef 26 achos, a 25 yn 2015-16. Mae hyn yn dangos bod nifer y gwrandawriadau terfynol yn sefydlog, gan gyfateb i 0.2 y cant o'r Gofrestr, sydd eto'n gyson â'r blynyddoedd cynt.

Mae'r ffigur hwn, a'r ffigurau yn Nhabl 10 isod, yn dangos mai cyfran fechan iawn o unigolion cofrestredig sy'n ymddangos gerbron gwrandawriad terfynol, gan awgrymu bod mwyafrif yr unigolion cofrestredig yn gweithio yn unol â safonau ymddygiad ac ymarfer gofynnol y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*.

Eleni, gwelwyd cynnydd yn nifer y gweithwyr gofal preswyl plant a ymddangosodd gerbron gwrandawriad terfynol o saith i 11, gyda mymryn o ostyngiad yn nifer y gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr cartrefi gofal i oedolion.

Tabl 10: Rolau unigolion cofrestredig cyn gwrandawriad terfynol

	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
Gweithiwr cymdeithasol	9	17	9	11	8	9	6
Rheolwr cartref gofal i oedolion	0	3	6	7	7	7	4
Rheolwr gofal preswyl i blant	4	0	0	0	0	2	1
Gweithiwr gofal preswyl i blant	8	3	1	5	6	7	10
Rheolwr gofal cartref	0	0	0	2	2	0	1
Myfyrwyr gwaith cymdeithasol	0	1	0	0	0	0	0
Cyfanswm	23	25	18	26	25	26	22

# Canlyniadau gwrandawiadau terfynol

Gorchymyn Dileu <b>12</b>	Cau'r achos heb gamau pellach <b>4</b>	Gohirio'r gwrandawriad/ Gohirio'r gwrandawriad ar ei ganol <b>3</b>	Gorchymyn Atal Dros Dro – gydag amodau <b>2</b>
<b>2</b> Gorchymyn Atal Dros Dro – heb amodau	<b>1</b> Gorchymyn Amodau Ymarfer/ Gorchymyn Cofrestru Amodol	<b>1</b> Canslo'r gwrandawriad	<b>1</b> Cerydd

Tabl 12: Canlyniad gwrandawriad terfynol fesul rôl

	Caewyd yr achos (ni chymerwyd camau pellach)	Cerydd	Gorchymyn Amodau Ymarfer	Gorchymyn Atal Dros Dro – gydag amodau	Gorchymyn Atal Dros Dro – heb amodau	Dileu
Gweithiwr cymdeithasol (6)	0	0	1	1	1	3
Rheolwr cartref gofal i oedolion (4)	1	1	0	0	0	2
Rheolwr gofal preswyl i blant (1)	0	0	0	0	0	1
Gweithiwr gofal preswyl i blant (10)	3	0	0	0	1	6
Rheolwr gofal cartref (1)	0	0	0	1	0	0
Myfyriwr gwaith cymdeithasol (0)						0
Cyfanswm	4	1	1	2	2	12

Gosodwyd gorchmynion dileu ym mwyafrif y gwrandawiadau, gyda 60 y cant o'r gweithwyr gofal preswyl i blant yn cael eu dileu a 50 y cant o'r gweithwyr cymdeithasol yn cael eu dileu.

Y llynedd, cafodd wyth y cant o unigolion cofrestredig gerydd (rhybudd), a olygai eu bod yn

gallu parhau i weithio yn eu rôl gofrestredig tra'r oedd y cerydd ar waith. Fodd bynnag, un cerydd yn unig a roddwyd eleni.

Eleni, penderfynodd paneli nad oedd amhariad ar addasrwydd pedwar person cofrestredig i ymarfer, gan gau eu hachosion heb gamau pellach.

## Apelau

Os bydd person cofrestredig eisiau herio canlyniad, gall apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Safonau Gofal). Gall apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed i osod Gorchmynion Interim, gwrthod cofrestru a gwrthod adnewyddu cofrestriad, a chanlyniadau gwrandawiadau terfynol.

Gall y Tribiwnlys gynnal penderfyniad y Panel neu orchymyn nad oes gan y penderfyniad rym. Hefyd, gall y Tribiwnlys amrywio neu ddirymu penderfyniad neu osod amodau .

Yn ystod y flwyddyn, ni chafwyd apêl yn erbyn penderfyniad gan y Cofrestrydd neu gan wrandawriad panel.

## Panel Apelau Cofrestru

Mae'r Panel hwn yn ystyried apelau gan bobl y mae eu cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad wedi cael ei wrthod, neu bobl a dynnwyd o'r Gofrestr yn sgil gwrandawriad terfynol, sy'n gwneud cais i gael eu hadfer i'r Gofrestr wedi pum mlynedd.

Cafwyd un cais am apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod cofrestru yn ystod y flwyddyn a chynhaliwyd y gwrandawriad ym mis Ebrill 2018.

## 6. Edrych tua'r dyfodol 2018-19

Wrth edrych ymlaen at raglen waith ein corff yn 2018-19, byddwn yn datblygu ymhellach ein rôl gwella, ymchwil a data newydd, yn ogystal â chynnal ein gweithgareddau datblygu'r gweithlu a rheoleiddio.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phobl sy'n defnyddio gofal a chymorth, a sefydliadau, i arwain a chefnogi gwelliant mewn gofal cymdeithasol. Rydym yn ymrwymo i weithio yn gydweithredol ac yn gynhwysol.

Dyma fydd rhai o'n prif flaenoriaethau:

- ymestyn y Gofrestr i grwpiau newydd ac ehangu ein tîm rheoleiddio i sicrhau bod digon o allu gennym yn y sefydliad i ymdopi â'r twf hwn
- datblygu strategaeth ar y cyd ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, mewn partneriaeth ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- datblygu strategaeth genedlaethol y gweithlu ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar gyda phartneriaid rhanbarthol a lleol
- datblygu ymgyrch ddenu a recriwtio gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol
- datblygu ein dulliau o wella a symud y blaenoriaethau cenedlaethol yn eu blaenau
- rhannu ymarfer da gyda'r sector
- symud datblygiad cymwysterau newydd y blynyddoedd cynnar a gofal cymdeithasol yn eu blaenau gyda Chymwysterau Cymru, canolfannau dysgu a chyrrff dyfarnu.

Trwy gydol y flwyddyn, byddwn yn mireinio ymhellach ein mesurau a'n dangosyddion i'n helpu i ddangos effaith rheoleiddio, safonau a datblygu'r gweithlu yn glir ar wella'r gweithlu gofal cymdeithasol a gweithlu'r blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn ein galluogi hefyd i amlygu sut mae ein gweithgareddau gwella gwasanaethau yn cyfrannu at ddiogelu a gwella llesiant pobl a'u cymunedau.